



---

## Cofnodion Cryno o Gyfarfod y Bwrdd ar 31 Mawrth 2017

---

### Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol  
(Cadeirydd)  
Gillian Baranski  
Gawain Evans (Eitemau 1-3)  
Owen Evans  
Andrew Goodall  
Peter Kennedy  
Natalie Pearson  
David Richards  
Elan Closs Stephens  
James Turner  
Ann Keane  
James Price  
Sioned Evans  
Lynne Schofield  
Toby Mason (Eitem 1)

### Yn mynychu:

Katie Antippas (Eitemau 1-7)  
Gwenllian Roberts (Eitem 1)  
Peredur John (Eitem 1)  
Des Clifford (Eitem 3)  
Piers Bisson (Eitem 3)  
Peta Davies (Eitem 4)  
Jo Glenn (Eitem 5)

### Ymddiheuriadau:

Jeff Godfrey  
Adrian Webb

### Yr Ysgrifenyddiaeth:

Emma Alexander  
Sarita Marshall

Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth aelodau'r Bwrdd fod agenda'r cyfarfod yn fyrrach a bod iddi fwy o ffocws, a hynny o ganlyniad i'r drafodaeth ar Effeithiolrwydd y Bwrdd ar Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd. Byddai rhagor o waith yn cael ei wneud i adolygu Cylch Gorchwyl y Bwrdd erbyn diwedd mis Ebrill er mwyn canolbwyntio'n gynyddol ar y pedair Strategaeth Drawsbynciol sy'n sail i'r Rhaglen Lywodraethu.

## Perfformiad Llywodraeth Cymru

### 1. Monitro Cynnydd Cyflawni – Wylfa Newydd [Bwrdd(17)007]

1.1 Cyflwynodd Gwenllian Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr Uned Ynni Cymru, gynigion ar lywodraethu Rhaglen Wylfa Newydd, sef rhaglen draws-lywodraethol uchel ei phroffil a oedd yn ceisio sicrhau'r manteision gorau i Gymru. Clywodd y Bwrdd y byddai angen i benderfyniadau allweddol ynghylch Wylfa Newydd gael eu gwneud cyn diwedd Awst, a cheisiodd gytundeb gan y Bwrdd i ail-flaenoriaethu adnoddau i wasanaethu'r Rhaglen.

- 1.2 Awgrymwyd y gallai Hinkley Point a phrosiectau seilwaith mawr eraill fod yn gymaryddion defnyddiol ar gyfer nodi arferion da.
- 1.3 Oherwydd y cyfnod cyfyngedig a oedd ar gael i ddylanwadu ar y gwaith hwn, cytunodd y Bwrdd y dylid trafod rhagor o eitemau ar Wylfa Newydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd ym mis Mai a mis Gorffennaf, ac y dylai eitem mis Mai ganolbwyntio ar y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys y cerrig milltir a'r gofynion adnoddau cysylltiedig.
- 1.4 Cafodd tîm y Rhaglen ei longyfarch ar ei waith hyd yma.

## **2. Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)008]**

- 2.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r prif bwysau a chyfleoedd. Byddai adroddiad i roi cipolwg ar y pwysau tebygol yn 2017/2018 yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ebrill.
- 2.2 Rhoddwyd eglurhad o'r amrywiant anariannol a nodwyd yn y papur. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol cael sgwrs ar y posibilrwydd o gael amrywiannau yn y dyfodol.

## **3. Y Trefniadau Pontio Ewropeaidd [ar lafar]**

- 3.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr – Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd, gan gynnwys tanio Erthygl 50 a chyhoeddi Papur Gwyn y Bil Diddymu Mawr. Roedd Gweinidogion Cymru wedi gallu defnyddio eu dylanwad yn y trafodaethau hyd yn hyn, ond roedd cwestiynau o hyd ynghylch sut y byddai meysydd sy'n gweithredu o fewn fframwaith rheoleiddio'r UE ar hyn o bryd yn cael eu trin yn y dyfodol; yr effaith ar raglen ddeddfwriaethol ac adnoddau Llywodraeth Cymru; a'r effaith ar fasnach a buddsoddi.
- 3.2 Nodwyd pwysigrwydd cydgysylltu'r gweithgarwch sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, a chytunwyd y dylid ystyried adnoddau a sgiliau yng nghyd-destun y Trefniadau Pontio Ewropeaidd unwaith y byddai'r Bil Diddymu Mawr wedi ei gyhoeddi.

## **Corfforaethol**

### **4. Gwerthuso'r Cynllun Penodiadau Hyblyg [Board(17)009]**

- 4.1 Clywodd y Bwrdd fod y Cynllun Penodiadau Hyblyg wedi ei gyflwyno er mwyn ei gwneud yn bosibl symud pobl i swyddi o flaenoriaeth; lleihau nifer y swyddi y mae pobl yn cael eu dyrchafu iddynt; sicrhau mwy o degwch; a symleiddio'r broses. Er ei fod wedi arwain at gynnydd mewn penodiadau ar draws ar yr un lefel, o ganlyniad i gasgliadau'r gwerthusiad cynigiwyd y dylid defnyddio dull gweithredu a oedd yn seiliedig ar CV ymgeiswyr.
- 4.2 Cytunodd y Bwrdd i gau'r Cynllun Penodiadau Hyblyg presennol (unwaith y byddai cynllun diwygiedig yn ei le), ond roedd yn cydnabod

bod y gallu i symud pobl i swyddi o flaenoriaeth yn bwysig, ac y dylai'r Pwyllgor Gweithrediadau, wrth drafod y cynigion, drafod sut y gallai'r broses reoli symudiadau sicrhau cysondeb a thegwch yn ogystal ag annog staff i weithio ar draws ffiniau.

- 4.3 Cytunodd hefyd, yn sgil y drafodaeth yn y Pwyllgor Gweithrediadau, y dylai Arweinwyr Gweithrediadau roi manylion y cynllun newydd i aelodau'r uwch dîm er mwyn ennill eu cefnogaeth, ac y dylid cyflwyno'r cynllun i'r Grŵp Busnes erbyn diwedd Mai.
- 4.4 Cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio dull gweithredu ysgafn ar gyfer cyfyngu ar weithgarwch dyrchafu mewnol tra'r oedd y cynllun ymadael yn mynd rhagddo.

## **5 Y Diweddaraf am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth [Bwrdd(17)010]**

- 5.1 Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am y gwaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, gan gynnwys y cynnydd yn erbyn y targed 50/50 erbyn 2020 ar gyfer menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Clywodd y Bwrdd fod nifer o adrannau eraill yn y Llywodraeth yn ymdrin â thâl mamolaeth/talu rhywun i weithio yn ystod cyfnod mamolaeth drwy'r drefn cyllid canolog er mwyn lleihau'r risg o gamwahaniaethu yn erbyn menywod wrth benodi i swyddi. Cytunwyd y dylid sefydlu trefn cyllid canolog ar gyfer tâl mamolaeth/talu rhywun i weithio yn ystod cyfnod mamolaeth, gan ddefnyddio mecanwaith syml.
- 5.2 Hefyd trafodwyd materion yn ymwneud â rheolwyr llinell a rheoli perfformiad, a chytunwyd i ailsefydlu amcan corfforaethol ar gyfer amrywiaeth ar gyfer rheolwyr llinell, er i'r Bwrdd nodi y byddai angen gweithredu'n gyflym i gyfathrebu hynny o ystyried ein bod ar ddechrau blwyddyn adrodd newydd.
- 5.3 Hefyd cytunodd y Bwrdd ar y canlynol:
  - dylai'r Pwyllgor Tâl ystyried y cynnig i hysbysebu swyddi yn yr Uwch Wasanaeth Sifil ar draws y Gwasanaeth Sifil er mwyn helpu i gyrraedd targedau amrywiaeth.
  - dylai'r peilot 'Mentora Tu Chwith' gael ei gyflwyno fel rhaglen ddwy flynedd.
- 5.4 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gillian a'i thîm am eu harweinyddiaeth ac am yr ystod eang o gamau gweithredu yr oeddent wedi eu cymryd.

## **Eitemau Rheolaidd**

### **6 Cofnodion drafft o gyfarfod 17 Chwefror a'r Materion sy'n codi [Bwrdd(17)011]**

- 6.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror yn gywir.

### **7 Eitemau ac Adroddiadau Eithrio yr Ysgrifennydd Parhaol [ar lafar]**

*Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol*

- 7.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, gan fod bwriad i gyhoeddi'r Strategaethau Trawsbynciol ddiwedd Mai, y byddai'n disgwyl i'r prif negeseuon a chynlluniau gweithredu gael eu trosglwyddo'n gynlluniau busnes ac amcanion unigol.
- 7.2 Roedd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cyfarfod â'r Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phwysleisiodd ba mor bwysig oedd hi bod y sefydliad yn defnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf.

#### *Adroddiadau Eithrio*

- 7.3 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu materion allweddol a oedd wedi codi yn eu meysydd. Roedd y rhain yn cynnwys y diweddaraf ar reilffyrdd; yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru; a llwyddiant yr Ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw, a oedd wedi arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd hyfforddi Meddygon Teulu a oedd wedi eu llenwi.
- 7.4 Hefyd, clywodd y Bwrdd fod Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi ei gyhoeddi, a bod nifer o geisiadau wedi eu cyflwyno. Byddai arweinwyr grwpiau yn cael y niferoedd ar gyfer eu grwpiau nhw.
- 7.5 Cafodd ystyriaethau diogelwch a Ffeinal Cynghrair Pencampwyr UEFA eu trafod hefyd. Byddai rhagor o fanylion am hynny yn cael eu rhoi i'r Ysgrifennydd Parhaol.

## **8 Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau**

- 8.1 Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a chafwyd adroddiad bod y syniad o gynnwys Cadeiryddion grwpiau'r Pwyllgor yn gweithio'n dda, a bod yr eitemau priodol yn cael eu huwchgyfeirio i'r Prif Bwyllgor. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi ystyried y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn OFMCO yn ogystal â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Cyrff Hyd Braich.
- 8.2 Clywodd y Bwrdd fod y Pwyllgor Gweithrediadau wedi cael cyflwyniad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn i'r newidiadau gael eu gwneud i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol; a'i fod hefyd wedi trafod y Peilot Gweithio Hyblyg, ymateb Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i ganlyniadau'r Arolwg Pobl o fwlio ac aflonyddwch, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf am gynllunio busnes. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin. Nodwyd bod agendâu'r Pwyllgor Gweithrediadau'n dynn iawn a bod y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n barhaus.
- 8.3 Nodwyd bod y dull gweithredu cyffredinol ar gyfer cynllunio busnes yn ffordd effeithiol iawn o dracio cynnydd a sicrhau bod staff a chyllidebau'n cyd-fynd. Gwnaed cais i gael eitem yn edrych ar sut yr oedd hynny'n cael ei ymgorffori yn y sefydliad, mewn cyfarfod yn y dyfodol.
- 8.4 Cafwyd y newyddion diweddaraf gan Bwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, a dywedwyd bod y niferoedd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil ar eu hisaf ers 2013.

**9. Unrhyw fater arall**

- 9.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 4 Ebrill 2017**